Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Canllaw hunanasesu ar gyfer colegau addysg bellach 2010

Iechyd ar Waith
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk
<mailto:cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk>

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cynnwys	Tudalen

Rhagair **1**

1 Cyflwyniad **2**

Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn? 2
Beth mae'r canllaw hwn yn ei wneud? 2

2 Hunanasesu effeithiol **3**

Y broses hunanasesu 3
Nodweddion allweddol hunanasesu effeithiol 5

3 Hunanasesu a chynllunio gwelliant **5**

Nodweddion allweddol cynlluniau datblygu ansawdd effeithiol 5

4 Hunanasesu a'r Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd **6**

5 Hunanasesu a'r Fframwaith Arolygu Cyffredin **6**

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? 7
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? 13
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? 19

6 Hunanasesu ac arolygu **28**

7 Pecynnau offer i gynorthwyo hunanasesu **28**

Pecynnau offer hunanasesu Estyn 28
Pecynnau offer hunanasesu eraill 29

Rhagair

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r argraffiad cyntaf hwn o 'Ganllaw Hunanasesu ar gyfer Colegau'. Mae hunanasesu wedi cael ei ymgorffori'n gynyddol ar draws addysg a hyfforddiant yng Nghymru, ac mae wedi cyfrannu at wella ansawdd a darpariaeth gan godi cyrhaeddiad a chyflawniad ar gyfer pob dysgwr.

Fel proses broffesiynol fyfyriol, mae hunanasesu yn galluogi colegau i ddod i adnabod eu hunain yn well, nodi'u hagenda ar gyfer gwella a hyrwyddo arloesedd ac arfer sy'n arwain y sector. Yn hanfodol, pan fydd y broses hunanasesu yn canolbwyntio ar effaith a deilliannau, mae hunanasesu yn arwain at welliannau ym mhrofiadau addysgol a deilliannau ar gyfer dysgwyr.

Diben y canllaw hwn yw cefnogi gweithgareddau hunanasesu colegau, gan gynnwys cynlluniau datblygu ansawdd blynyddol. Mae Estyn wedi hyrwyddo datblygu hunanasesu ar draws pob sector am flynyddoedd lawer. Mae hunanasesu hefyd wrth graidd Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer darparwyr ôl-16.

Er bod y canllaw yn un cynhwysfawr, ni fwriedir iddo fod yn ddiffiniol. Mae cyfeiriadau at offer defnyddiol eraill a ffynonellau gwybodaeth eraill y gall darparwyr fod eisiau eu defnyddio.

Rwy'n hynod falch o gymeradwyo'r canllaw hwn wrth barhau â'n hymrwymiad ar y cyd i sicrhau gwelliant parhaus a rhagoriaeth i bawb.

Ann Keane

Ann Keane
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

1 Cyflwyniad

Prif bwrpas hunanasesu yw gwella'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr. Er bod pob agwedd ar ddarpariaeth coleg yn ffocws dilys ar gyfer hunanasesu, dylai fod sail resymegol yn seiliedig ar yr effaith a gaiff yr agwedd honno ar safonau.

Nid oes unrhyw un fformwla na dull unigol o hunanasesu. Mae colegau yn sefydliadau cymhleth a gallant fynd ar drywydd cyflawni rhagoriaeth yn yr agweddau amrywiol ar eu gwaith mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Mae colegau eisoes yn defnyddio fframweithiau hunanasesu gwahanol yn ogystal â defnyddio Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn (FfAC).

Nid yw hunanasesu yn ymarferiad y gellir ei gynnal gan arweinwyr neu grŵp gorchwyl yn gweithio ar ei ben ei hun. Dim ond pan fydd pob aelod o staff a dysgwyr yn cyfrannu at y broses, yn ymwybodol o'r canfyddiadau ac yn gweithredu ar sail y canfyddiadau hynny y gall hunanasesu fod yn ddylanwadol.

Mae'r canllaw hwn yn darparu gwybodaeth am asesu gwaith colegau yng nghyd-destun FfAC Estyn. Mae'n cynnwys cwestiynau i golegau eu gofyn er mwyn helpu gwella ansawdd eu gwaith.

Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn ar gyfer pawb sy'n gweithio mewn colegau addysg bellach i gefnogi a gwella safonau a phrofiadau dysgu dysgwyr. Gall y canllaw fod yn ddefnyddiol hefyd i randdeiliaid sy'n gweithio mewn partneriaeth â darparwyr addysg a hyfforddiant, gan gynnwys rhieni/gofalwyr, awdurdodau lleol, asiantaethau, grwpiau cymunedol ac eraill.

Beth mae'r canllaw hwn yn ei wneud?

Diben y canllaw hwn yw cefnogi gweithgareddau hunanasesu a chynlluniau gwella'r darparwr ei hun. Er bod y canllaw yn un cynhwysfawr, ni fwriedir iddo fod yn ddiffiniol nac yn gyflawn. Nid yw'r canllaw yn cwmpasu'r holl bethau y mae darparwyr yn eu gwneud fel rhan o'u proses hunanasesu. Fodd bynnag, mae'n canolbwyntio ar agweddau ar hunanasesu y dangosodd arolygu ac ymchwil eu bod yn arbennig o bwysig. Mae'r canllaw yn dechrau drwy nodi'r agweddau pwysig hynny ar hunanasesu, gan ystyried y Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd.

Mae'r canllaw yn cloi gyda rhestr o offer hunanasesu amrywiol y gall darparwyr ddymuno'u defnyddio i gefnogi'u craffu a ffocws ar feysydd i'w datblygu.

2 Hunanasesu effeithiol

Y broses hunanasesu

Proses yw hunanasesu, nid digwyddiad. Hwn yw'r cam cyntaf, hanfodol mewn proses gylchol o sicrhau newid a gwelliant. Fe'i seilir ar fyfyrio proffesiynol, her a chymorth ymhlith ymarferwyr. Mae hunanasesu effeithiol yn golygu gwneud penderfyniadau amrywiol iawn ynglŷn â chamau sy'n arwain at fuddion amlwg ar gyfer pob dysgwr. Yn anad dim, mae hunanasesu yn golygu ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth.

Mae tri chwestiwn yn ganolog i hunanasesu:

- **Pa mor dda ydym yn gwneud?**
- **Sut ydym yn gwybod?**
- **Sut allwn ni wella pethau ymhellach?**

Er bod pob agwedd ar ddarpariaeth coleg yn ffocws dilys ar gyfer hunanasesu, ar ddeilliannau dysgwyr ddylai'r pwyslais fod bob amser: h.y. ar asesiad o effaith pob agwedd ar ddarpariaeth ar safonau a lles dysgwyr.

Dylai'r broses hunanasesu fod yn un **barhaus** ac yn rhan reolaidd o fywyd gweithio'r coleg. Dylid seilio hunanasesu ar ystod eang o wybodaeth am gryfderau a meysydd i'w gwella a gesglir trwy gydol y flwyddyn, er y bydd yn briodol yn aml cynnal rhai agweddau ar hunanasesu ar gyfnodau hwy, ac nid bob blwyddyn o angenrheidrwydd. Dylai colegau ddefnyddio gwybodaeth o hunanasesu i gynllunio ar gyfer gwelliannau, ymgymryd â gwaith gwella, a sicrhau proses gylchol reolaidd o fonitro ac asesu sy'n arwain at welliant pellach.

Mae'r diagram isod yn dangos natur gylchol hunanasesu effeithiol.



Camgymeriad yw gweld hunanasesu fel digwyddiad un tro yn unig. Dylai colegau a'u rhannau cyfansoddol ymgymryd â chylch rheolaidd o weithgareddau hunanasesu. Gall y gwaith hwn gynnwys y gweithgareddau rheolaidd canlynol:

- dadansoddi data o arholiadau, profion neu weithgareddau asesu ar lefel dysgwr unigol, cwrs, maes dysgu, adran, maes dysgu yn y gwaith, partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOG) yn ogystal â lefel coleg cyfan;
- arfarnu ansawdd gwaith ysgrifenedig a gwaith ymarferol dysgwyr;
- arsylwadau o addysgu a hyfforddi gan gymheiriaid a rheolwyr;
- arfarnu ansawdd cynllunio'r cwricwlwm ac asesu, cofnodi ac adrodd;
- cymryd samplau o farnau dysgwyr, staff, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill;
- archwilio arfer yn erbyn polisïau a gweithdrefnau fel y rhai ar gyfer diogelu neu iechyd a diogelwch;
- adolygu cynnydd yn erbyn cynlluniau datblygu; ac
- meincnodi yn erbyn arfer orau neu arfer wahanol o golegau eraill.

Nid yw hunanasesu yn ymarferiad y gellir ei gynnal gan uwch reolwyr colegau yn gweithio ar eu pennau'u hunain. Dim ond pan fydd pob aelod o staff yn cyfrannu at y broses, yn ymwybodol o'r canfyddiadau ac yn gweithredu ar sail y canfyddiadau hynny y gall hunanasesu fod yn ddylanwadol. Mae mewnbwn gan grwpiau cynrychioliadol o ddysgwyr yn bwysig hefyd.

Dylai unrhyw raglen hunanasesu gynnwys arsylwadau o addysgu/hyfforddi a gweithgareddau dysgu yn ychwanegol at y rhai a gynhelir at ddibenion gwerthuso staff a/neu reoli perfformiad. Mae'r arsylwadau hyn yn darparu tystiolaeth bwysig o gyflawniadau a chynnydd dysgwyr mewn dysgu.

Gallai rhaglen arsylwi sesiynau gynnwys:

- arsylwi prif gyrsiau bob blwyddyn gan uwch reolwyr;
- arsylwi sampl o feysydd dysgu yn fanwl gan uwch reolwyr fel rhan o gylch o hunanasesiadau manwl o feysydd dysgu. Bydd hyn yn cynnwys arsylwi sesiynau mewn DOG a Dysgu yn y Gwaith (DYYG);
- arsylwadau gan staff o golegau a darparwyr eraill; ac
- arsylwadau cymheiriaid gan staff o rannau eraill o'r coleg fel rhan o adolygiad maes neu ran o hunanasesiad.

Dros gyfnod, bydd eich cofnodion o'r gwaith hwn yn arwain at ddarparu proffil o raddau sesiynau, y gellir eu defnyddio i lunio barn ar safonau ac addysgu/hyfforddi yn ogystal ag amlygu meysydd i'w gwella.

Mae **tystiolaeth o farnau dysgwyr** yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth o gyflawniad, agweddau a lles. Mae hefyd yn debygol o fod yn ddefnyddiol wrth arfarnu ansawdd addysgu ac asesu. Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i fod yn rhan o hunanasesu. Gellir gwneud hyn drwy ymgynghori â dysgwyr a gwrando ar ddysgwyr drwy grwpiau ffocws a thrwy ddatblygu'u medrau i gyfrannu at wneud penderfyniadau a chynllunio gwelliant. Dylai colegau ddefnyddio holiaduron Llais y Dysgwr hefyd.

Dylai hunanasesu ystyried safbwyntiau amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys cyflogwyr, llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned ehangach a wasanaethir gan y coleg.

Nodweddion allweddol hunanasesu effeithiol

Mae hunanasesu effeithiol:

- yn agored ac yn onest;
- yn rhoi'r prif ffocws ar ddysgwyr, eu cyflawniadau a'u profiadau;
- yn broses barhaus;
- wedi'i ymgorffori mewn cynlluniau strategol ac yn defnyddio gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn rheolaidd;
- yn cynnwys staff ar bob lefel wrth asesu deilliannau a'u perfformiad;
- yn gofyn am safbwyntiau dysgwyr yn systematig ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid eraill, fel cyflogwyr a phartneriaid, pan fo'n briodol;
- yn ceisio llunio barnau yng ngoleuni data perfformiad y gellir ei fesur a nodi tueddiadau dros gyfnod;
- yn arwain at gynlluniau datblygu sy'n cael eu monitro yn erbyn targedau clir a meini prawf llwyddo; ac
- yn arwain at welliannau mewn safonau ac ansawdd ar gyfer dysgwyr.

Dylai'r barnau a lunnir yn ystod hunanasesiad fod yn rhai:

- **sicr** – wedi'u seilio ar dystiolaeth ddigon cadarn, dibynadwy a hygyrch;
- **uniongyrchol** – wedi'u seilio ar arsylwi uniongyrchol;
- **dibynadwy** – wedi'u seilio ar feini prawf cyffredin, a ddeellir yn dda;
- **dilys** – yn adlewyrchu'n gywir yr hyn a gyflawnir ac a ddarperir;
- **rhydd o ragfarn** – yn gwerthfawrogi cyfle cyfartal ac amrywiaeth; a
- **chorfforaethol** – yn adlewyrchu safbwynt cyfunol dysgwyr, staff, cyflogwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

3 Hunanasesu a chynllunio gwelliant

Dylai colegau ddefnyddio gwybodaeth o hunanasesu i gynllunio ar gyfer gwelliant a sicrhau proses gylchol reolaidd o fonitro, asesu a chynllunio gwelliant.

Bydd y wybodaeth a gesglir o raglenni hunanasesu'r coleg yn bwydo i gynlluniau datblygu ansawdd y coleg a chynlluniau eraill ar gyfer gwella ansawdd darpariaeth. Mae'n debygol y bydd rhai agweddau ar ansawdd a safonau yn cael eu harfarnu'n amlach nag eraill. Bydd angen i'r cylch o gynllunio datblygiad ystyried hyn.

Nodweddion allweddol cynlluniau datblygu ansawdd effeithiol

Mae cynlluniau datblygu ansawdd effeithiol:

- wedi'u seilio ar ddeilliannau hunanasesu ac yn cynnwys croesgyfeiriadau at dystiolaeth;
- yn cyfrannu at hunanasesu;
- wedi'u hymgorffori yng nghylchoedd cynllunio'r coleg;
- yn cynnwys blaenoriaethau, targedau, graddfeydd amser a chamau penodol clir;

- yn nodi unigolion sy'n gyfrifol am weithredoedd, graddfeydd amser a'r adnoddau y bydd eu hangen;
- yn pennu deilliannau clir y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn; ac
- yn rhoi manylion sut, pa bryd a chan bwy y bydd cynnydd yn cael ei fonitro a'i arfarnu.

4 Hunanasesu a'r Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd

Mae'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) wedi datblygu Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd (FfAE) newydd mewn partneriaeth agos ag Estyn, cyrff cynrychioli darparwyr a rhanddeiliaid eraill. Nod y FfAE yw herio darparwyr i barhau i wella'u perfformiad ac ansawdd eu darpariaeth. Mae am roi mwy o ryddid a hyblygrwydd i'r darparwyr hynny sy'n dangos eu heffeithiolrwydd yn gyson. Trwy gysoni'r FfAE newydd â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn, nod AdAS yw defnyddio gwybodaeth am berfformiad, gwybodaeth leol a barnau proffesiynol i helpu i godi safonau ymhellach o fewn y sector. Yn y cyfamser, bydd rôl hanfodol gan ddarparwyr eu hunain i'w chwarae, yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn dysgu oddi wrth ei gilydd ac i gefnogi'i gilydd.

Fel rhan o'r fframwaith, mae'n ofynnol i ddarparwyr gyflwyno adroddiad hunanasesu (AHA) blynyddol ynghyd â Chynllun Datblygu Ansawdd (CDA) i AdAS yn seiliedig ar FfAC Estyn.

Nid yw'n ofynnol i ddarparwyr ymgymryd ag adroddiad hunanasesu ar wahân at ddibenion arolygu. Bydd Estyn yn gofyn am gopi o adroddiad hunanasesu mwyaf diweddar y darparwr gan y darparwr ei hun bedair wythnos cyn arolygiad.

5 Hunanasesu a'r Fframwaith Arolygu Cyffredin

Mae'r FfAC yn darparu rhestr wirio gynhwysfawr o'r holl faterion allweddol y dylai colegau eu hadolygu wrth gynnal eu hunanasesiad. Mae Estyn yn rhagweld y bydd pob coleg yn llunio adroddiad hunanasesu blynyddol sy'n cwmpasu'r materion yn y FfAC. Er mwyn helpu colegau i arfarnu deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth, mae'r adran hon o'r canllaw yn darparu cwestiynau ar bob un o'r dangosyddion ansawdd ac agweddau ar y FfAC. Datblygwyd y FfAC mewn cysylltiad â'r Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd, ac mae'n cydategu'r Fframwaith hwnnw.

Mae'r trefniadau arolygu newydd yn cydnabod bod y sector colegau wedi datblygu systemau cynhwysfawr ar gyfer hunanasesu a chynllunio datblygiad dros flynyddoedd lawer. Adlewyrchir y cynnydd hwn trwy ddull mwy cymesur o arolygu o Fedi 2010. Y man cychwyn ar gyfer pob arolygiad yw asesiad y coleg o'i berfformiad ei hun. Ni fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar waith yn fanwl yn ystod arolygiad craidd. Byddant yn dilyn 'trywyddau ymholi' ac yn cymryd samplau o dystiolaeth i brofi asesiad y coleg ei hun o'i waith.

Mae'r adrannau canlynol wedi'u hysgrifennu o safbwynt colegau eu hunain a chaiff 'ni' ei ddefnyddio i gyfeirio at staff coleg.

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Sut ydym yn arfarnu safonau? (FfAC 1.1)

Mae hunanasesu cadarn yn edrych ar safonau yn gyntaf. Mae monitro safonau yn helpu arfarnu effaith ansawdd darpariaeth ac ansawdd arweinyddiaeth.

Mae hunanasesu effeithiol yn llunio barnau yng ngoleuni data perfformiad y gellir ei fesur. Mewn colegau, mae data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ac offer meincnodi Tribal yn gynyddol ddefnyddiol wrth iddo ddatblygu'n llawnach ac yn fwy cywir, yn enwedig ar lefel prif nodau cymhwyster unigol. Mae asesu'r data hwn yn drwyadl yn galluogi colegau i nodi nodweddion da yn ogystal â meysydd i'w gwella.

Pa mor dda yw canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrhaeddiad blaenorol? (FfAC 1.1.1)

Wrth arfarnu perfformiad, mae angen i ni ddefnyddio ystod o ddadansoddiadau gwahanol ac ni ddylem ganolbwyntio ar un dangosydd penodol nac un math o ddadansoddiad.

Y man cychwyn ar gyfer asesu perfformiad coleg yw'r cyfraddau llwyddo ar gyfer darpariaeth addysg bellach (AB) a dysgu yn y gwaith (DYYG) y coleg cyfan fel y'i dadansoddir gan Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ac offer meincnodi perthnasol eraill. Dylem ddadansoddi perfformiad yn ôl lefel cyrsiau, maes dysgu yn ogystal â hyd gyrsiau. Dylem hefyd asesu perfformiad dysgwyr ar bob lefel o fedrau hanfodol a medrau allweddol. Ar gyrsiau DYYG byddwn yn meincnodi cyrhaeddiad dysgwyr o ran fframweithiau cymwysterau yn erbyn rhai darparwyr eraill. Mewn dysgu oedolion yn y gymuned (DOG), byddwn yn rhannu data ar gyrhaeddiad dysgwyr, gan gynnwys ennill credydau, gyda phartneriaethau dysgu lleol a phartneriaethau dysgu cymunedol eraill.

Wrth asesu perfformiad Safon Uwch a TGAU, dylem gymharu perfformiad ein dysgwyr â pherfformiad dysgwyr mewn colegau eraill sydd â phatrwm tebyg o garfan newydd o ddysgwyr mewn perthynas â chyrhaeddiad blaenorol.

Dylem asesu ein perfformiad dros gyfnod, tair blynedd fel arfer, yn hytrach na chanolbwyntio ar berfformiad mewn un flwyddyn unigol. Mae angen i ni ystyried a yw ein perfformiad yn gwella, yn dirywio neu'n amrywio dros gyfnod.

Dylem gydnabod bod eu nodweddion unigryw eu hunain gan y colegau a'r ardal y maent yn eu gwasanaethu, ac mae angen i ni ystyried ffactorau sy'n dylanwadu ar broffiliau dysgwyr wrth gymharu canlyniadau â chyfartaleddau cenedlaethol. Dylem ystyried perfformiad dysgwyr o gymunedau difreintiedig.

Mae angen i ni hefyd arfarnu'r cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud o'r cyfnod dysgu

blaenorol, gan ddefnyddio data gwerth ychwanegol. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn dehongli unrhyw ddata gwerth ychwanegol yng ngoleuni perfformiad mewn perthynas â dangosyddion eraill.

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â chanlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrhaeddiad blaenorol

- Ydyn ni'n gwneud cystal, neu hyd yn oed yn well, nag oeddem ni dair blynedd yn ôl?
- Ydyn ni'n gwneud cystal ag y gallwn neu a oes lle i wella?
- A yw dysgwyr yn gwneud digon o gynnydd rhwng cyrsiau, o un lefel cwrs i'r llall ac o'r flwyddyn gyntaf i'r ail flwyddyn ar gyrsiau dwy flynedd?
- Ym mha feysydd dysgu y mae dysgwyr yn gwneud orau? Ym mha feysydd dysgu nad yw dysgwyr yn gwneud cystal? Beth yw'r ffactorau sy'n cyfrannu at yr amrywio hwn ac a ydynt yn amrywio dros gyfnod?
- A yw dysgwyr ar raglenni DYYG yn cyflawni medrau allweddol ar lefelau uwch na'r rheiny a bennir yn eu fframweithiau dysgu?
- A yw dysgwyr o gymunedau difreintiedig yn gwneud cystal â'r disgwyl?

Pa mor dda yw safonau grwpiau o ddysgwyr? (FfAC 1.1.2)

Mae angen i ni ddadansoddi cyrhaeddiad grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys perfformiad dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r rhestr lawn o grwpiau o ddysgwyr ag ADY wedi'i chynnwys yn Atodiad 5 y Llawlyfr Arweiniad Arolygu.

Dylai barnau am gyflawniad dysgwyr ag ADY ystyried eu cyflawniadau mewn perthynas â chyflawni nodau dysgu cytûn yn eu cynlluniau dysgu unigol.

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â safonau grwpiau o ddysgwyr

- A yw cyflawniad ein dysgwyr sydd â hawl i gael lwfansau cynhaliaeth addysgol yn cymharu â dysgwyr nad ydynt yn cael lwfansau cynhaliaeth addysgol yn y coleg?
- A yw dysgwyr mwy abl a dawnus yn cyflawni graddau uwch ar gyrsiau graddedig?
- A yw dysgwyr ag ADY yn cyflawni nodau dysgu cytûn?

Pa mor dda yw cyflawniad a chynnydd dysgwyr mewn dysgu? (FfAC 1.1.3)

Heblaw am ddefnyddio data, dylai asesiad o gyflawniad a chynnydd dysgwyr fod yn seiliedig ar arsylwadau o sesiynau, craffu ar waith dysgwyr a thrafodaethau gyda dysgwyr. Dylem arfarnu pa mor dda y mae dysgwyr yn galw i gof ddysgu blaenorol, yn datblygu medrau meddwl, yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd, ac yn cymhwyso'r rhain i sefyllfaoedd newydd. Pan fo modd, dylech arfarnu'r safonau y mae dysgwyr yn eu cyrraedd a barnu a yw'r rhain yn briodol i allu'r dysgwyr. Dylai barnau am gyflawniad gydnabod cynnydd a datblygiad dysgwyr o fan cychwyn penodol, mewn perthynas â'r cyd-destun y maent yn dysgu ynddo. Ar gyfer dysgwyr ag ADY, bydd barnau am gyflawniad yn cael eu dylanwadu gan y wybodaeth am eu hanghenion a'u galluoedd unigol.

Er mwyn arfarnu cyflawniad a chynnydd mewn dysgu, mae angen i ni gael rhaglen o arsylwadau o sesiynau yn ychwanegol at y rhai sy'n ofynnol at ddibenion rheoli perfformiad. Gallai 'r rhaglen hon gynnwys:

- arsylwi prif gyrsiau bob blwyddyn gan uwch reolwyr;
- arsylwi sampl o feysydd dysgu yn fanwl gan uwch reolwyr fel rhan o gylch o hunanasesiadau manwl o feysydd dysgu. Bydd hyn yn cynnwys arsylwi sesiynau mewn DOG a DYYG;
- arsylwadau gan gydweithwyr eraill; ac
- arsylwadau cymheiriaid gan staff o rannau eraill o'r coleg fel rhan o adolygiad maes neu ran o hunanasesiad.

Dros gyfnod, dylem adeiladu proffil parhaus o farnau ar sesiynau sy'n cynnwys un ffynhonnell dystiolaeth ar safonau. (Ar yr un pryd dylem adeiladu proffil o ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi.)

Heblaw am arsylwadau o sesiynau, gallwn hefyd arfarnu safonau drwy graffu ar waith dysgwyr a chynlluniau athrawon. Gall holiaduron ar gyfer dysgwyr, rhieni/gofalwyr a chyflogwyr, a gwrando ar safbwyntiau dysgwyr, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill ddarparu rhywfaint o wybodaeth hefyd.

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â chyflawniad a chynnydd dysgwyr mewn dysgu

- A yw dysgwyr yn cyflawni mewn sesiynau dysgu?
- A yw dysgwyr yn cofio dysgu blaenorol?
- A yw dysgwyr yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd?
- A yw dysgwyr yn cymhwyso'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau i sefyllfaoedd newydd?
- A yw deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n dychwelyd i astudio yn gwella ar eu cofnod cyrhaeddiad blaenorol?

Pa mor dda yw medrau dysgwyr? (FfAC 1.1.4)

Wrth arfarnu medrau, mae angen i ni ganolbwyntio ar ba un a yw pob dysgwr yn meddu ar y medrau mewn cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu y mae eu hangen i **fanteisio** ar y cwricwlwm cyfan, a pha mor dda y mae'r cwricwlwm ehangach ei hun yn datblygu medrau dysgwyr. Yn gyffredinol, mae angen i ni roi'r pwyslais mwyaf ar fedrau llythrennedd gan mai'r rhain sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar wella cyfleoedd i fanteisio ar holl feysydd y cwricwlwm.

Mae angen i ni ystyried unrhyw ddeilliannau mewn:

- cymwysterau medrau sylfaenol a medrau allweddol a dyfarnu credyd;
- asesiadau sgrinio cychwynnol a diagnostig;
- canlyniadau asesiadau perthnasol eraill, fel y rhai ar allu dysgwyr i ddarllen, pan fyddant ar gael; a
- chyflawniad dysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer cymwysterau medrau allweddol, gan gynnwys y rhai yn dilyn y Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

•

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â medrau dysgwyr

- A yw pob dysgwr yn meddu ar y medrau mewn cyfathrebu, rhifedd a TGCh y mae eu hangen i fanteisio ar y cwricwlwm cyfan?
- A yw dysgwyr yn datblygu medrau yn y cwricwlwm ehangach?
- A yw dysgwyr yn cyflawni'n dda mewn cymwysterau medrau sylfaenol a medrau allweddol, gan gynnwys y rhai sy'n rhan o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru?
- A yw dysgwyr yn cyflawni'n dda mewn asesiadau perthnasol eraill, fel yr asesiadau o'u gallu darllen?
- A yw pob dysgwr, gan gynnwys y rhai sy'n siarad Saesneg fel ail iaith, yn meddu ar y medrau y mae eu hangen i fanteisio ar y cwricwlwm?
- A yw dysgwyr yn cymhwyso'u medrau heb gymorth?
- A yw dysgwyr yn gwneud defnydd da o'u cynlluniau dysgu unigol i ddeall eu cynnydd eu hunain?

Pa mor dda yw medrau dysgwyr yn yr iaith Gymraeg? (FfAC 1.1.5)

Wrth arfarnu datblygiad dysgwyr yn yr iaith Gymraeg, mae angen i ni ystyried cefndir a chyd-destun ieithyddol ein coleg a'r ardal yr ydym yn ei gwasanaethu.

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â medrau dysgwyr yn yr iaith Gymraeg

- A yw dysgwyr sydd wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn parhau i wneud cynnydd drwy ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol fel tiwtorialau ac mewn gweithgareddau allgyrsiol?
- A yw dysgwyr yn gwneud cynnydd o ran caffael medrau yn yr iaith Gymraeg, gan gynnwys dysgwyr mewn dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion a dysgwyr eraill sy'n astudio'r Gymraeg am y tro cyntaf?

Sut ydym yn arfarnu lles? (FfAC 1.2)

Mae lles meddyliol, corfforol ac emosiynol dysgwyr yn rhag-amod hanfodol ar gyfer dysgu llwyddiannus. Yr agweddau yn y dangosydd ansawdd hwn yw agweddau dysgwyr at gadw'n iach a diogel, y graddau y mae dysgwyr yn cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau, ac ansawdd hynny, ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau a medrau cymdeithasol a medrau bywyd dysgwyr.

I arfarnu lles, mae angen i ni:

- ystyried safbwyntiau dysgwyr;
- ystyried y graddau y mae dysgwyr yn cyfranogi mewn dysgu;
- barnu a yw dysgwyr yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â phethau sy'n effeithio ar eu profiadau yn y coleg; ac
- ystyried a yw dysgwyr yn meddu ar y medrau y mae eu hangen arnynt i wella'u dysgu eu hunain, i weithio gydag eraill ac i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith.

Mae angen i ni gael tystiolaeth o gyfranogiad mewn dysgu a'i fwynhau, yn ogystal ag ymddygiad ac agweddau, drwy arsylwadau o sesiynau. Mae llawer o ffyrdd eraill o

gael gwybod am safbwyntiau dysgwyr, er enghraifft, drwy holiaduron a chyfweliadau gyda grwpiau ffocws a chynrychiolwyr cyrsiau. Mae AdAS wedi cynhyrchu holiadur cenedlaethol ar gyfer dysgwyr o'r enw Llais y Dysgwr, y gall colegau ei ddefnyddio'n rheolaidd i nodi tueddiadau a newidiadau mewn agwedd. Nid yr holiadur hwn yw'r unig un sydd ar gael. Fel coleg, gallwn ddefnyddio rhai eraill, yn enwedig os ydym am ganolbwyntio ar faterion penodol yn fanwl.

Gall arolygon rheolaidd o safbwyntiau dysgwyr, yn ogystal â gwrando'n ofalus ar yr hyn sydd gan ddysgwyr i'w ddweud mewn grwpiau ffocws ac mewn sefyllfaoedd tebyg, ddarparu tystiolaeth dda ar gyfer arfarnu lles.

Er y bydd rhywfaint o'r dystiolaeth ar gyfer y dangosydd ansawdd hwn yn dibynnu ar ganfyddiadau dysgwyr ac arsylwadau o sesiynau, mae rhywfaint o ddata defnyddiol ar ddeilliannau hefyd. Mae hwn yn cynnwys cyfraddau presenoldeb a data ar brydlondeb.

Pa mor dda yw agweddau dysgwyr at gadw'n iach a diogel? (FfAC 1.2.1)

Wrth ystyried y graddau y mae dysgwyr yn teimlo'n iach, mae angen i chi asesu a oes gan ddysgwyr ddealltwriaeth gadarn o sut gallant ddod yn iach, trwy'r hyn y maent yn ei fwyta a'r gweithgarwch corfforol y maent yn ymgymryd ag ef.

Wrth ystyried y graddau y mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, gallwn edrych ar a yw dysgwyr yn teimlo'n rhydd oddi wrth gam-drin corfforol a geiriol yn y coleg. Bydd adolygiad systematig a strwythuredig o achosion o fwlio neu aflonyddu yn helpu darparu rhywfaint o dystiolaeth o'r graddau y mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel.

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn ag agweddau dysgwyr at gadw'n iach

- A yw dysgwyr yn deall sut gallant ddod yn iach, trwy'r hyn y maent yn ei fwyta a thrwy weithgarwch corfforol?
- A yw dysgwyr yn dewis yr opsiynau iach mewn cinio coleg neu drwy eu pecynnau bwyd eu hunain?
- A yw dysgwyr yn cyfranogi'n dda mewn gweithgareddau chwaraeon neu weithgareddau corfforol eraill?

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn ag agweddau dysgwyr at gadw'n ddiogel

- A yw dysgwyr yn teimlo'n rhydd oddi wrth gam-drin corfforol a geiriol yn y coleg?
- A oes digwyddiadau o fwlio neu aflonyddu? A yw'r nifer yn cynyddu neu'n gostwng dros gyfnod?

Faint mae dysgwyr yn cyfranogi mewn dysgu ac yn ei fwynhau? (FfAC 1.2.2)

Wrth arfarnu cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau, mae angen i ni ystyried presenoldeb, ymddygiad ac agweddau, a'r graddau y mae dysgwyr yn cael lleisio barn am yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut.

Wrth arfarnu presenoldeb, mae angen i ni ystyried y gyfradd bresenoldeb cyffredinol, gan nodi unrhyw amrywiadau rhwng grwpiau penodol o ddysgwyr.

Wrth arfarnu ymddygiad ac agweddau, dylem ystyried y graddau y mae dysgwyr yn dangos ymddygiad da mewn sesiynau ac o gwmpas y coleg. I wneud hyn mae angen i ni fod â rhaglen o arsylwadau sesiynau a dylai arsylwi ymddygiad fod yn eitem sefydlog mewn unrhyw arsylwi. Dylem arsylwi a yw dysgwyr yn ystyriol ac yn gwrtais, ac yn uniaethu â'i gilydd ac â staff yn dda. Yn ychwanegol, dylem edrych ar agweddau dysgwyr at ddysgu, yn enwedig eu diddordeb yn eu gwaith, eu gallu i gynnal canolbwyntio a pha mor dda y maent yn ymgymryd â thasgau.

Wrth arfarnu cyfraniad y dysgwyr at beth a sut maent yn dysgu, dylem ystyried:

- a yw barn dysgwyr ynghylch beth a sut maent yn dysgu yn cael ei chymryd o ddifrif;
- sut mae dysgwyr yn trafod y testunau i'w cwmpasu ac yn helpu cynllunio cynlluniau gwaith a gweithgareddau; ac
- a yw dysgwyr yn gwneud dewisiadau ynghylch beth a sut maent yn dysgu.

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â phresenoldeb dysgwyr

- Pa mor dda mae cyfraddau presenoldeb cyffredinol yn cymharu â chyfraddau cenedlaethol a cholegau tebyg (gan ddefnyddio data meincnodi LINC)?
- A oes unrhyw amrywiadau rhwng grwpiau penodol o ddysgwyr?

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn ag ymddygiad ac agweddau dysgwyr

- A yw dysgwyr yn dangos ymddygiad da mewn sesiynau ac o amgylch y coleg?
- A yw dysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu?
- A yw'r duedd yn nifer y cyfeiriadau am ymddygiad gwael a gwaith gwael yn gwella?

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â chyfraniad dysgwyr at yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut

- A yw dysgwyr yn gwneud dewisiadau ynghylch beth a sut maent yn dysgu?
- A yw barnau dysgwyr ynghylch beth a sut maent yn dysgu yn cael ei chymryd o ddifrif?
- A yw dysgwyr yn trafod y testunau i'w haddysgu ac yn helpu cynllunio cynlluniau gwaith a gweithgareddau?

Pa mor dda yw ymglymiad cymunedol ein dysgwyr a'u rhan mewn gwneud penderfyniadau? (FfAC 1.2.3)

Dylem arfarnu'r graddau y mae dysgwyr, gan gynnwys y rhai o grwpiau gwahanol, yn ymgymryd â chyfrifoldebau, ac yn cymryd rhan yn y coleg a'r gymuned ehangach.

Dylem ystyried cyfranogiad dysgwyr mewn gwneud penderfyniadau, gan gynnwys effeithiolrwydd y grwpiau ffocws. Dylem farnu'r graddau y mae cyngor y coleg yn rhoi cyfle i ddysgwyr gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, yn rhoi cyfrifoldeb iddynt ac yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn ag ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau

- A yw dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, fel heriau menter, chwaraeon a chlybiau?
- A yw dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned y tu allan i'r coleg?
- A yw dysgwyr yn cyfranogi mewn gweithgareddau codi arian i elusennau?
- A yw dysgwyr yn gwirfoddoli i helpu gyda digwyddiadau'r coleg?
- A yw dysgwyr yn cymryd rhan mewn trafodaethau a phenderfyniadau am ddysgu ac addysgu, a pha effaith y mae hyn yn ei chael?
- A yw pob dysgwr, gan gynnwys y rhai o grwpiau gwahanol, yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am eu bywyd yn y coleg?
- A oes strwythurau ar waith i sicrhau cyswllt da rhwng cynrychiolwyr dysgwyr a'r corff llywodraethol?
- A yw dysgwyr yn cael eu cynnwys yn hunanasesu'r coleg?

Pa mor dda yw medrau cymdeithasol a medrau bywyd dysgwyr? (FfAC 1.2.4)

Wrth arfarnu medrau cymdeithasol a medrau bywyd dysgwyr, mae angen i ni ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn dangos parch, gofal a phryder at eraill, ac a ydynt yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith. Dylem hefyd ystyried medrau emosiynol dysgwyr, gan gynnwys eu hunanhyder a'u hunan-barch.

Yn ychwanegol, dylem archwilio a oes gan ddysgwyr y medrau sydd eu hangen i wella eu dysgu eu hunain, gweithio gydag eraill, datrys problemau a datblygu eu syniadau i symud ymlaen i gyfnod nesaf y dysgu. Dylem ystyried pa mor dda y maent wedi'u paratoi ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r coleg.

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â medrau cymdeithasol a medrau bywyd dysgwyr

- A yw dysgwyr wedi'u paratoi ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r coleg?
- A yw dysgwyr yn dangos parch, gofal a phryder at eraill?
- A yw dysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith?
- A yw dysgwyr yn datblygu medrau emosiynol, gan gynnwys eu hunanhyder a'u hunan-barch?
- A yw dysgwyr yn meddu ar y medrau sydd eu hangen i wella eu dysgu eu hunain, gweithio gydag eraill, datrys problemau a datblygu eu syniadau i symud ymlaen i gyfnod nesaf y dysgu?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Mae'r adran hon yn cynnwys agweddau pwysig ar y ddarpariaeth, gan gynnwys y cwricwlwm, addysgu ac asesu, gofal, cymorth ac arweiniad a'r amgylchedd dysgu. Dylai'r ffocws yma fod nid ar a ydym neu nad ydym yn gwneud y gweithgareddau a restrir isod, ond yn hytrach dylai'r ffocws fod ar effaith y gweithgareddau hyn ar safonau a lles dysgwyr. Mae swyddogaeth glir gan y coleg, sef helpu gwneud

safonau a lles mor dda ag y gallant fod.

Sut ydym yn arfarnu profiadau dysgu? (CIF 2.1)

Y brif ystyriaeth wrth arfarnu'r cwricwlwm yw pa mor dda y mae'r model cyflwyno yn bodloni anghenion dysgwyr ar draws y coleg.

Nid y cwricwlwm fel y'i dangosir ar amserlen y dysgwyr yn unig y dylid ei ystyried. Dylid hefyd edrych ar natur a graddau dysgu arall, gan gynnwys chwaraeon, clybiau, ymweliadau, digwyddiadau arbennig, cysylltiadau â chyflogwyr, y gymuned a gweithgareddau allgyrsiol eraill. Mae'n bwysig gweld pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer cyflwyno'r rhain a sut maent yn cydlynu â chynllunio cwricwlwm prif ffrwd.

Pa mor dda ydyn ni'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned? (FfAC 2.1.1)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â pha mor dda yr ydym yn bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned

- A yw'r cwricwlwm yn galluogi dysgwyr i ddilyn profiadau dysgu sy'n ddiddorol, yn heriol ac yn ysgogol?
- A ydyn ni'n ystyried y math o fodel cyflwyno a ddefnyddir mewn cyrsiau?
- A yw pawb yn cael cyfle cyfartal i ddilyn cyrsiau, ac os oes unrhyw gyfyngiadau ar ddewisiadau dysgwyr, a yw hynny er lles pennaf y disgyblion hynny?
- A yw dysgwyr yn gallu manteisio ar gymwysterau priodol ac ennill credyd sy'n bodloni eu diddordebau, eu galluoedd, eu hanghenion a'u harddulliau dysgu?
- A ydyn ni'n darparu cyfleoedd a llwybrau sy'n galluogi dysgwyr i fanteisio ar ystod o elfennau ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol?
- A yw'r cwricwlwm yn cysylltu â'r cwricwlwm lleol mewn perthynas â'r Llwybrau Dysgu 14-19 a Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) (2009)?
- A ydyn ni'n llwyddo i oresgyn rhwystrau i ddysgu dysgwyr?
- A yw pob dysgwr (yn enwedig y rhai sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol) yn cael cyfleoedd da i ymgymryd â phrofiad gwaith systematig, perthnasol a heriol?
- A yw agweddau yn y swydd ac agweddau i ffwrdd o'r swydd o'r cwricwlwm DYYG yn cysylltu'n gydlynus?
- A yw dysgu y tu allan i'r coleg a gweithgareddau allgyrsiol yn effeithio ar brofiadau a dysgu dysgwyr?

Pa mor dda ydyn ni'n darparu ar gyfer medrau? (FfAC 2.1.2)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â pha mor dda yr ydym yn darparu ar gyfer medrau

- A yw gweithgareddau dysgu ar draws y cwricwlwm yn diwallu anghenion dysgwyr o ran dysgu a defnyddio medrau, yn enwedig medrau llythrennedd darllen ac ysgrifennu?
- A yw athrawon a rheolwyr yn defnyddio canlyniadau asesu cychwynnol yn dda i gynllunio ar gyfer gwahaniaethu ym mhob sesiwn ar draws y cwricwlwm cyfan?
- A ydyn ni'n sicrhau bod datblygiad medrau dysgwyr yn digwydd ar draws y

cwricwlwm?
- A yw'r ddarpariaeth ar gyfer medrau yn bodloni anghenion medrau unigol dysgwyr, yn ennyn eu diddordeb, yn datblygu'u hyder ac yn hyrwyddo dysgu llwyddiannus?
- A yw'r ddarpariaeth ar gyfer medrau yn cael ei chydlynu'n briodol fel bod medrau yn cael eu rhoi yn eu cyd-destun ym mhrif gwrs neu faes diddordeb dysgwyr?
- A yw'r ddarpariaeth ar gyfer medrau yn cael ei monitro a'i harfarnu ar draws y cwricwlwm?

Pa mor dda ydyn ni'n darparu ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig? (FfAC 2.1.3)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â pha mor dda yr ydym yn darparu ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig

- A yw ansawdd ein darpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn galluogi dysgwyr i gyflawni safonau da, gan ystyried cefndir a chyd-destun ieithyddol y coleg?
- A yw'r coleg yn annog ac yn cynorthwyo dysgwyr i gynnal eu medrau yn y Gymraeg, a'u datblygu ymhellach?
- A ydyn ni'n annog dysgwyr i ymgymryd â chymwysterau mewn Cymraeg, a'u cyflawni?
- A ydyn ni'n cyfrannu at wybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru?

Pa mor dda ydyn ni'n darparu addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDFE)? (FfAC 2.1.4)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â pha mor dda yr ydym yn darparu ar gyfer ADCDFE

- A ydyn ni'n sicrhau bod ADCDFE yn digwydd mewn cyrsiau ar draws y cwricwlwm cyfan?
- A ydyn ni'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu ADCDFE drwy waith a phrosiectau allgyrsiol?
- A ydyn ni'n mesur effaith ADCDFE?
- A ydyn ni'n gweithredu'n gynaliadwy?
- A ydyn ni'n galluogi dysgwyr i gydnabod pwysigrwydd cymryd cyfrifoldeb a chamau unigol i wneud y byd yn lle gwell?
- A ydyn ni'n galluogi dysgwyr i gael lefel briodol o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy, a'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y medrau, yr agweddau a'r gwerthoedd angenrheidiol i ddod yn ddinasyddion byd-eang?

Sut ydym yn arfarnu addysgu a hyfforddi? (FfAC 2.2)

Mae angen i fonitro ac asesu ansawdd addysgu a hyfforddi canolbwyntio ar arsylwi arferion addysgu, hyfforddi ac asesu. Gall arfarnu'r wybodaeth am safonau arwain at farnau ar yr hyn sy'n mynd yn dda a'r hyn nad yw cystal, ond dim ond drwy arsylwi y bydd coleg yn canfod y rhesymau pam. Y dasg allweddol wrth farnu ansawdd addysgu a hyfforddi yw'r effaith a gaiff ar ddysgu a'r safonau a gyflawnir. Ni ddylai ganolbwyntio ar ddefnyddio proses benodol ar wahân i'w heffaith. Yn yr un modd,

wrth graffu ar asesu, dylai'r ffocws fod ar ba effaith mae'n ei chael ar ddysgu.

Pa mor dda ydyn ni'n arfarnu ystod ac ansawdd y dulliau addysgu a hyfforddi? (FfAC 2.2.1)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn ag ystod ac ansawdd y dulliau addysgu a hyfforddi

- A oes gennym ddisgwyliadau uchel o bob un o'r dysgwyr?
- A ydyn ni'n cynllunio'n effeithiol ac a oes gennym amcanion clir ar gyfer sesiynau dysgu a phrofiadau dysgu eraill?
- A yw ystod o ddulliau ac adnoddau addysgu a hyfforddi yn cael eu defnyddio i ennyn diddordeb dysgwyr a'u hysgogi a'u herio i gyflawni'n dda?
- A ydyn ni'n llwyddiannus o ran darparu gwaith ymestynnol i fodloni anghenion pob un o'r dysgwyr, er enghraifft, y rhai ag anghenion addysgol ychwanegol a'r rhai mwy abl a dawnus?
- A ydyn ni'n cyfathrebu'n effeithiol gyda dysgwyr?
- A ydyn ni'n sefydlu perthynas waith da sy'n meithrin dysgu?
- A ydyn ni'n rheoli ymddygiad dysgwyr yn effeithiol?
- A ydyn ni'n defnyddio staff technegol a staff cymorth dysgu yn effeithiol?

Pa mor dda ydyn ni'n gwella cyflawniad dysgwyr drwy asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu? (FfAC 2.2.2)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â pha mor dda yr ydym yn asesu dysgu ac yn asesu ar gyfer dysgu

- A yw dysgwyr yn adolygu eu dysgu eu hunain yn rheolaidd, yn deall eu cynnydd ac yn cyfrannu at osod eu targedau dysgu eu hunain?
- A oes mathau gwahanol o adborth ffurfiannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i roi gwybod i ddysgwyr am eu dysgu?
- A ydyn ni'n annog dysgwyr i ystyried adborth?
- A yw'r broses asesu yn llywio'r cynllunio ar gyfer y dyfodol?
- A ydyn ni'n dadansoddi canfyddiadau arholiadau gystal ag asesiadau eraill?
- A ydyn ni'n darparu cofnodion clir, systematig, hylaw, cyson a defnyddiol ar bob dysgwr?
- A ydyn ni'n defnyddio cofnodion yn effeithiol i olrhain cynnydd dysgwyr, cymharu deilliannau â meincnodau ac ymyrryd mewn achosion unigol os bydd angen?
- Mewn darpariaeth DYYG, a ydyn ni'n cynnwys cyflogwyr yn llawn yn y broses adolygu dysgwyr?
- A ydyn ni'n gweithio gyda phartneriaethau dysgu cymunedol i adolygu'r deilliannau ar gyfer dysgwyr cymunedol?
- A ydyn ni'n llunio adroddiadau ac adolygiadau ar ddysgwyr sy'n glir, yn gyson ac yn llawn gwybodaeth, ac yn amlinellu meysydd i'w gwella?
- A ydyn ni'n galluogi dysgwyr a chyflogwyr i gyfrannu at gynnwys adroddiadau ac adolygiadau, lle bo'n briodol?
- A yw cyflogwyr/rhieni yn deall gweithdrefnau asesu ac yn cael gweld cofnodion ac adroddiadau sy'n ymwneud â dysgwyr?
- A ydyn ni'n annog rhieni/cyflogwyr i ymateb i adroddiadau ar gynnydd?

Sut ydyn ni'n arfarnu gofal, cymorth ac arweiniad? (FfAC 2.3)

Dylai'r ffocws yma fod ar effaith y gofal, y cymorth a'r arweiniad ar safonau a lles dysgwyr yn hytrach nag ar y gweithdrefnau a'r trefniadau yn unig. Mae'n hanfodol bod unrhyw asesiad o ofal, cymorth ac arweiniad yn edrych ar y graddau y mae'r trefniadau yn cael effaith fuddiol ar ddysgwyr sy'n agored i niwed. Mae hefyd yn bwysig cadw mewn cof y dylai fod cyswllt clir rhwng unrhyw farnau a lunnir am ofal, cymorth ac arweiniad a'r barnau am safonau a lles.

Pa mor dda ydyn ni'n bodloni'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles? (FfAC 2.3.1)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â pha mor dda yr ydym yn darparu ar gyfer iechyd a lles

- A oes gennym bolisïau a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo byw yn iach a lles dysgwyr, a pha mor dda y mae'r rhain yn cynorthwyo dysgwyr i gyflawni lles emosiynol a chorfforol?
- A ydyn ni'n ystyried barn dysgwyr a rhieni/cyflogwyr?
- A ydyn ni'n annog dysgwyr i fod yn iach?
- A yw ein darpariaeth ar gyfer addysg rhyw a pherthynas ac addysg am gamddefnyddio sylweddau yn cynorthwyo datblygiad a dealltwriaeth y dysgwyr?
- A oes gennym drefniadau addas ar gyfer adrodd ar faterion iechyd a diogelwch?
- A oes gennym drefniadau effeithiol ar gyfer delio ag aflonyddu a bwlio gan gynnwys ein trefniadau ar gyfer helpu dysgwyr i reoli eu teimladau a datblygu hunanymwybyddiaeth a hunan-barch?
- A yw ein dysgwyr yn mwynhau bywyd yn y coleg ac a ydyn ni'n hyrwyddo ymddygiad a phresenoldeb da?
- A yw pob dysgwr yn gwybod pwy i fynd atynt os oes ganddynt bryder?

Pa mor dda y caiff dysgwyr eu cynorthwyo gyda gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol? (FfAC 2.3.2)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â pha mor dda y caiff ein dysgwyr eu cynorthwyo gyda gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol

- A ydyn ni'n darparu cymorth unigol i ddysgwyr ar faterion addysgol a materion eraill?
- A ydyn ni'n trefnu bod ystod eang o wybodaeth ar gael i ddysgwyr?
- A yw dysgwyr yn gallu manteisio'n llawn ar wasanaethau arweiniad diduedd?
- A ydyn ni'n galluogi dysgwyr i ddefnyddio cymorth proffesiynol oddi mewn i'r coleg a chan ddarparwyr gwasanaethau arbenigol?
- A ydyn ni'n cysylltu'n effeithiol ag asiantaethau arbenigol fel yr heddlu, gwasanaethau iechyd, seicolegol, cwnsela, tai, ariannol a gwasanaethau cymdeithasol?
- A ydyn ni'n sicrhau bod gennym drefniadau effeithiol i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei hawl sylfaenol i gael arweiniad a chymorth?
- A ydyn ni'n ystyried cydlyniaeth ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer cymorth personol ac arbenigol, gan gynnwys y cyngor a roddir i bob dysgwr ar addysg ac arweiniad gyrfaoedd?

Pa mor dda yw ein trefniadau diogelu? (FfAC 2.3.3)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â'n trefniadau diogelu

- A yw ein trefniadau ar gyfer diogelu plant a/neu oedolion sy'n agored i niwed yn briodol ac a ydyn ni'n cydymffurfio ag arfer orau?
- A yw ein polisïau a'n gweithdrefnau yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant a'u bod yn ymateb i'n trefniadau diogelu ac yn cydymffurfio â nhw?
- A yw ein polisi yn amlinellu:
  - cyfrifoldebau'r uwch aelod o staff enwebedig ar gyfer delio â materion diogelu a rhoi cyngor/cymorth i staff eraill;
  - gweithdrefnau clir sy'n adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 a Deddf Diogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed 2006; a
  - threfniadau ar gyfer hyfforddi?
- A oes gennym drefniadau recriwtio, disgyblu ac adrodd effeithiol ar waith i sicrhau addasrwydd staff a gwirfoddolwyr, ac a yw ein trefniadau yn bodloni gofynion cyfreithiol?

Pa mor dda ydyn ni'n bodloni anghenion dysgwyr ag ADY? (FfAC 2.3.4)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â pha mor dda yr ydym yn bodloni anghenion dysgwyr ag ADY

- A yw ein dysgwyr ag ADY yn cael y cymorth tymor byr neu dymor hir sy'n ofynnol ar gyfer eu hanghenion?
- A ydyn ni'n sicrhau bod dysgwyr yn cael asesiad cychwynnol ac asesiad diagnostig o'u ADY?
- A yw dysgwyr yn cael cymorth ychwanegol gyda medrau sylfaenol i'w helpu i fodloni gofynion eu prif gymhwyster a'u nodau credyd?
- A ydyn ni'n ymgynghori'n rheolaidd â rhieni/gofalwyr?

Sut ydyn ni'n arfarnu'r amgylchedd dysgu? (FfAC 2.4)

Mae angen i golegau ddarparu amgylchedd dysgu sy'n helpu dysgwyr i lwyddo gorau y gallant. I fod yn gwbl effeithiol, mae angen i goleg fod yn gymuned gynhwysol lle gall dysgwyr gael cyfle cyfartal i fanteisio ar holl feysydd darpariaeth y coleg. Mewn colegau effeithiol, mae pwyslais clir ar adnabod, parchu a dathlu amrywiaeth.

Mae hefyd yn bwysig bod gan ddysgwyr ddigon o adnoddau o ansawdd da sy'n cyfateb yn dda i'w hanghenion. Yn ogystal, mae angen adeiladau o ansawdd da ar ddysgwyr sy'n cyfateb yn dda i'w hanghenion ac sy'n hawdd iddynt eu defnyddio.

Pa mor dda ydyn ni'n arfarnu ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth ein coleg? (FfAC 2.4.1)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â'n hethos a'n darpariaeth ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth

- A ydyn ni wedi sefydlu ethos coleg sy'n gynhwysol ac sy'n cyfrannu at gydlyniant cymunedol?

- A ydyn ni'n ystyried ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth cefndiroedd dysgwyr ac yn gweithredu'n briodol ar y wybodaeth hon?
- A ydyn ni'n cynnig hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac yn herio stereoteipiau mewn agweddau, dewisiadau, disgwyliadau a chyflawniadau dysgwyr?
- A ydyn ni'n datblygu agweddau goddefgar ac yn sicrhau bod pob dysgwr a'r staff yn rhydd oddi wrth aflonyddwch?
- A ydyn ni'n hyrwyddo atal a chael gwared ar ymddygiad gormesol, gan gynnwys bwlio, rhywiaeth, hiliaeth, rhagfarn ar sail oed, homoffobia ac eithafiaeth dreisgar?
- A yw ein polisïau a gweithdrefnau yn effeithiol o ran delio ag achosion penodol o wahaniaethu neu ymddygiad gormesol? A ydyn ni'n cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw dysgwyr a darpar ddysgwyr ag anableddau yn dioddef triniaeth lai ffafriol yn y coleg neu ar safle cyflogwyr?
- A oes gennym gynllun cydraddoldeb a chynllun gweithredu sy'n cael eu deall yn dda ac sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal a hawliau dynol? A yw ein polisi yn bodloni'r gofynion statudol?
- A oes gennym gynllun gweithredu sy'n sicrhau bod y polisi'n cael ei gyflwyno?
- A ydyn ni'n darparu hyfforddiant cydraddoldeb priodol ar gyfer staff (a chyflogwyr, pan fo'n briodol)?
- A ydyn ni'n sicrhau bod cyflogwyr yn ymwybodol o ofynion y coleg mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth?
- A ydyn ni'n monitro ac yn mynd i'r afael yn effeithiol ag unrhyw faterion neu gwynion cysylltiedig sy'n codi?

Pa mor dda ydyn ni'n sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn briodol ar gyfer anghenion y dysgwyr? (FfAC 2.4.2)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn ag a yw'r amgylchedd ffisegol yn briodol ar gyfer anghenion y dysgwyr

- A yw'r adnoddau yn gweddu'n dda i anghenion y dysgwyr ym mhob amgylchedd dysgu?
- A yw'r adeiladau yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol sy'n cael ei gynnal yn dda i gefnogi'r addysgu, yr hyfforddi a'r dysgu?
- A yw'r adeiladau yn ddigonol ar gyfer nifer y dysgwyr a'r gweithgareddau a gynigir?
- A yw'r adeiladau a'r tir ym mhob safle yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Y pennaeth neu'r prif weithredwr sy'n chwarae'r rhan fwyaf hanfodol a chanolog. Mae angen i unrhyw asesiad o'r rôl honno ganolbwyntio ar ba mor effeithiol ydyw o ran gwella darpariaeth, ansawdd, safonau a lles dysgwyr.

Mae arweinyddiaeth coleg effeithiol yn gofyn hefyd fod staff ar bob lefel sydd â rolau arweinyddiaeth a rheolaeth yn gwneud cyfraniad pwysig a'u bod yn deall eu rolau swydd ac yn ymroddedig iddynt. Mae angen i staff ganolbwyntio ar sut y gall eu gwaith arwain at welliannau.

Mae arweinyddiaeth coleg effeithiol yn sicrhau y caiff dysgwyr eu hannog a'u cefnogi'n briodol i fod yn rhan o wneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar eu dysgu a'u lles.

Mae arweinyddiaeth lwyddiannus yn galluogi staff, cyrff llywodraethol a dysgwyr i fod â rhan mewn llunio nodau, gwerthoedd a pholisïau, ac yn y gweithdrefnau sy'n deillio ohonynt. Mae timau arweinyddiaeth llwyddiannus yn gweithio'n effeithiol â'i gilydd ac maent yn rhannu ymrwymiad i sicrhau rhagoriaeth.

Sut ydyn ni'n arfarnu effeithiolrwydd ein harweinyddiaeth? (FfAC 3.1)

Wrth feddwl am gyfeiriad strategol, mae angen i ni ystyried i ba raddau yr ydym yn rhannu gweledigaeth gyffredin o'r hyn yr ydym am ei gyflawni ac i ble'r ydym eisiau mynd fel coleg.

Mae cynlluniau a phrosesau ond gystal â'r graddau y maent yn effeithiol o ran cynnal safon uchel a gwella darpariaeth a safonau. Rhaid i arweinyddiaeth dda gael effaith.

Mae angen i ni ystyried pa mor dda y mae'r corff llywodraethol yn cyflawni'i rwymedigaethau statudol ac yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol. Bydd angen i ni ystyried hefyd pa mor dda y mae'r llywodraethwyr nid yn unig yn cefnogi ein coleg drwy stiwardiaeth effeithiol, ond yn ei herio i wneud yn well hefyd.

Pa mor dda yw ein cyfeiriad strategol a beth yw effaith ein harweinyddiaeth? (FfAC 3.1.1)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â chyfeiriad strategol arweinyddiaeth

- A oes gennym nodau clir, amcanion strategol, a chynlluniau a pholisïau sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion dysgwyr?
- A yw ein cynlluniau yn cynnwys ffocws priodol ac a ydynt yn cael eu gweithredu a'u monitro mewn ffordd amserol?
- A yw ein huwch reolwyr yn gweithio'n dda fel tîm?
- A yw llinellau cyfathrebu yn glir ac effeithiol?
- A yw rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio ac a yw'r rhychwantau cyfrifoldeb mewn uwch dimau rheoli a rheolwyr canol yn hyfyw a chytbwys?
- A yw pob un o'r staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau mewn perthynas uniongyrchol â nodau, cynlluniau a chyfrifoldebau strategol penodol?
- A yw arweinwyr yn rheoli eu hamser eu hunain yn effeithiol ac yn blaenoriaethu gweithgareddau yn ymatebol?
- A yw cyfarfodydd yn canolbwyntio ar faterion pwysig am berfformio a busnes craidd, ac yn cynhyrchu pwyntiau gweithredu clir sy'n cael eu cyflawni yn unol â'r hyn a gytunwyd?
- A yw ein strwythurau rheoli a phwyllgor yn cydlynu â chyfeiriad strategol y coleg ac a ydynt yn mynd i'r afael â materion craidd?
- Pa mor dda ydyn ni'n defnyddio data i fonitro perfformiad?
- A ydyn ni'n cyfleu disgwyliadau uchel i'r rhai yr ydym yn eu rheoli?
- A ydyn ni'n cytuno ar dargedau heriol a realistig i ni ein hunain ac eraill, ac yn eu cyflawni?

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn ag effaith yr arweinyddiaeth

- A ydyn ni'n cyfleu'r weledigaeth ar gyfer ein coleg yn dda ac yn archwilio sut i'w chyflawni, ar y cyd ag eraill?
- A ydyn ni'n modelu ac yn hyrwyddo ymddygiadau a gwerthoedd proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at greu ethos coleg lle mae ein dysgwyr a'n staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?
- A ydyn ni'n cefnogi ac yn herio pawb yn weithredol i wneud eu gorau?
- Pa mor dda ydyn ni'n rheoli perfformiad ein staff er mwyn eu helpu i wella eu harfer?
- A ydyn ni'n mynd i'r afael â thanberfformio yn drylwyr ac yn uniongyrchol lle bo angen? A yw ein prosesau rheoli perfformiad yn nodi anghenion hyfforddi a datblygu unigolion a choleg-cyfan yn glir ac a ydyn ni'n blaenoriaethu'r rhain yn briodol ac yn mynd i'r afael â nhw yn llawn?
- A oes targedau ar gyfer gwella gan bob un o'n staff, sy'n cefnogi cyflwyno'r nodau strategol yn ein cynllun datblygu coleg a chynlluniau gweithredu eraill?

Pa mor dda yw gwaith ein llywodraethwyr? (FfAC 3.1.2)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â gwaith ein llywodraethwyr

A yw llywodraethwyr:

- yn gwybod pa mor dda rydym yn gwneud o gymharu â cholegau eraill?
- yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol ac yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol?
- yn deall eu rolau?
- yn meddu ar wybodaeth dda am berfformiad ein coleg a'r materion sy'n effeithio arno?
- yn darparu synnwyr o gyfeiriad ar gyfer gwaith ein coleg?
- yn cefnogi ein coleg fel ffrind beirniadol?
- yn dwyn ein coleg i gyfrif am y safonau a'r ansawdd yr ydym yn eu cyflawni?
- yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i ddysgwyr, aelodau o staff, cyflogwyr, rhieni neu unrhyw un arall am y gweithdrefnau os ydynt yn dymuno gwneud cwyn neu apelio?
- yn cyfranogi mewn hyfforddiant er mwyn eu helpu i wneud eu gwaith?
- yn gwrando ar farnau dysgwyr ac yn ystyried y rhain wrth wneud penderfyniadau?
- yn gwneud yn siŵr y delir â chwynion yn brydlon ac yn deg?

Pa mor dda ydyn ni'n bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol? (FfAC 3.1.3)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol

- A ydyn ni'n glir ynglŷn â blaenoriaethau lleol, ac yn enwedig blaenoriaethau cenedlaethol, ac a oes gennym farn a strategaeth gyson a systematig o ran sut byddwn yn ymateb iddynt?
- A ydyn ni'n llwyddo i fodloni blaenoriaethau fel:
  - y Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd;
  - Llwybrau Dysgu 14-19, gan gynnwys bodloni gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) (2009);

  - yr agenda Trawsnewid;
  - strategaethau sy'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg;
  - cynllun y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc; a
  - chytundebau partneriaethau a chonsortia cymunedol lleol?
- A ydyn ni'n gwerthfawrogi diben y blaenoriaethau hyn a'r modd y gallant wella deilliannau a lles dysgwyr?
- A ydyn ni'n ymateb i heriau addysgol yr ardal leol drwy weithio gyda cholegau eraill, darparwyr eraill ac asiantaethau a'r awdurdodau lleol yn yr ardaloedd a wasanaethir gan y coleg?

Sut ydyn ni'n gwella ansawdd yr hyn a wnawn? (FfAC 3.2)

Diben allweddol y canllaw hwn yw gwella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth drwy hunanasesu effeithiol.

Dylai'r prosesau hunanasesu a chynllunio datblygu fod yn rhan reolaidd ac arferol o waith pob athro ac arfer broffesiynol hyfforddwyr. Dylai ffocws hunanasesu'r coleg fod ar nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella, monitro darpariaeth ac asesu deilliannau. Dylai'r broses gynnwys adolygiad trwyadl o bob agwedd ar fywyd y coleg, ac yn bwysicaf oll, sut mae'r rhain yn effeithio ar y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni. Ystyriaeth allweddol yw pa un a yw ein coleg yn cael ei reoli ar sail asesiad cywir o'i gryfderau a'i wendidau. Mae'n annhebygol y bydd ansawdd ein harweinyddiaeth a'n rheolaeth yn dda os nad oes gennym weithdrefnau hunanasesu effeithiol.

Dylai cynllunio ar gyfer gwelliant lifo'n naturiol o'n gweithgareddau hunanasesu. Dylai'r blaenoriaethau mewn unrhyw gynllun gwella fod wedi'u seilio ar ganfyddiadau ein hunanasesiad. Prawf cynllunio ar gyfer gwelliant yn dda yw p'un a yw'r gweithredoedd wedi arwain at welliannau clir. Os yw ein cynllunio ar gyfer gwelliant yn dda, yna dylai fod gennym hanes o welliannau â thystiolaeth dda ohono.

Pan fydd hynny'n angenrheidiol, bydd angen ymyrraeth a chymorth uniongyrchol i wella perfformiad. Ni ddylid edrych arno fel ymateb i fethiant, ond yn hytrach dylid edrych arno fel ymyrraeth a chymorth sy'n arwain at welliannau sylweddol. Mae ymyrraeth a chymorth ar gyfer rhai grwpiau o ddysgwyr mwy agored i niwed yn debygol o olygu gweithio ar draws y coleg cyfan yn ogystal â gydag asiantaethau eraill.

Pa mor dda ydyn ni'n hunanasesu, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr ac eraill? (FfAC 3.2.1)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn ag hunanasesu

- A ydyn ni'n defnyddio tystiolaeth i nodi a mynd i'r afael â thanberfformio neu berfformiad cymedrol, i nodi gweithgarwch gwella ac i osod targedau a safonau uchel ond realistig?
- A yw hunanasesu yn rhan reolaidd o fywyd gwaith ein coleg ac a yw wedi'i ymgorffori yn ein cynllunio strategol?
- A yw data ar safonau ac ansawdd addysg yn cael ei asesu a'i fonitro'n drylwyr, gan gynnwys ystyried tueddiadau a chynnydd dros gyfnod?

- A ydyn ni'n defnyddio tystiolaeth uniongyrchol am ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r dysgu? A ydyn ni'n cynnwys pob un o'r staff wrth asesu deilliannau a'u perfformiad eu hunain?
- A ydyn ni'n annog dysgwyr i rannu'u barnau a chodi materion?
- A ydyn ni'n ystyried barn ein staff, cyflogwyr, rhieni a rhanddeiliaid eraill?
- Pan fydd yn briodol, ydyn ni'n defnyddio adolygiadau gan asiantaethau allanol?
- A yw ein gweithgarwch hunanasesu yn arwain at lunio ein cynlluniau datblygu ac yn arwain at welliant mewn safonau ac ansawdd?

Sut ydyn ni'n cynllunio a sicrhau gwelliant? (FfAC 3.2.2)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â chynllunio a sicrhau gwelliant

- A ydyn ni'n defnyddio gwybodaeth o hunanasesu i osod blaenoriaethau a thargedau heriol a phriodol ar gyfer gwella?
- A ydyn ni wedi blaenoriaethu'r materion yr ydym yn dymuno'u gwella?
- A ydyn ni'n gweithredu strategaethau cadarn sy'n debygol o ysgogi'r gwelliannau dymunol?
- A yw pob un o'r staff yn chwarae eu rhan mewn rhoi'r strategaethau ar waith?
- Pan fydd angen, ydyn ni'n ymyrryd ac yn cynorthwyo'n gynnar ac yn uniongyrchol i wella perfformiad?
- A ydyn ni wedi diffinio'r camau ar gyfer gwella mewn graddfeydd amser penodol a realistig ac yn dyrannu cyfrifoldeb ar gyfer eu cyflwyno?
- A ydyn ni wedi sicrhau bod ein blaenoriaethau'n cael eu cefnogi trwy ddyrannu adnoddau?
- A yw ein camau wedi cael effaith gadarnhaol, a lle bo'n berthnasol, wedi arwain at welliannau mesuradwy mewn safonau?
- A oes gennym hanes da neu ragorol o wneud gwelliannau mewn safonau ac yn ansawdd y ddarpariaeth dros y blynyddoedd diwethaf?

Sut ydym yn ymgysylltu â rhwydweithiau o arfer broffesiynol? (FfAC 3.2.3)

Rhwydwaith o arfer broffesiynol yw grŵp o athrawon a hyfforddwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella arfer yn eu sefydliad eu hunain yn ogystal ag ysgogi newid ar draws rhwydwaith o ddarparwyr. Mae Colegau Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn flaenllaw o ran y ffordd y maent yn cynorthwyo darparwyr i rwydweithio.

Mae'r rhwydweithiau hyn yn gweithio i sicrhau safonau uwch a lles trwy gydweithredu rhwng athrawon a hyfforddwyr mewn ac ar draws colegau a darparwyr. Mae athrawon a hyfforddwyr yn gweithio gyda'i gilydd i rannu a datblygu arbenigedd a gwybodaeth broffesiynol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr.

Gallant hefyd alluogi colegau i fanteisio ar wybodaeth sy'n dod i'r amlwg am arweinyddiaeth, dysgu, addysgu a lles.

Dylai ein coleg fod yn datblygu'n gymuned ddysgu gref ac yn cyflawni diwylliant o gydweithredu o fewn ysgolion ac ar draws colegau a phartneriaethau. Mae'r broses hon yn gofyn am drefniadau i gefnogi ymgysylltiad pob un o'r staff wrth gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol.

Fel rhan o'r hunanasesu mewn perthynas â **3.2.3** mae angen i ni hefyd graffu ar effeithiolrwydd trefniadau'r coleg ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â rhwydweithiau o arfer broffesiynol

- A yw'r staff yn ymgysylltu â rhwydweithiau yn y coleg a thu hwnt?
- A yw ein hymglymiad mewn rhwydweithiau yn ein galluogi i fanteisio ar wybodaeth sy'n dod i'r amlwg am arweinyddiaeth y coleg, dysgu, addysgu, hyfforddi, safonau a lles?
- A ydyn ni'n cyflawni diwylliant o gydweithredu o fewn ac ar draws y coleg a gyda darparwyr eraill?
- Pa mor dda yw ein trefniadau i gefnogi ymgysylltiad gweithredol pob un o'n staff i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol, gan gynnwys cyfranogi mewn profiadau dysgu proffesiynol y coleg cyfan?
- A yw pob un o'n staff yn cael eu cefnogi gan ddatblygiad proffesiynol parhaus?
- A yw pob un o'n staff yn caffael gwybodaeth a medrau newydd i ddatblygu dulliau arloesol ar gyfer dysgu, addysgu a hyfforddi?
- A yw pob un o'n staff yn cymryd rhan mewn arsylwi dysgu yn uniongyrchol?
- A ydyn ni'n myfyrio ar ein harfer ein hunain ac yn arfarnu effaith dysgu proffesiynol ar ddysgu a lles ein dysgwyr?

Sut ydyn ni'n arfarnu ein heffeithiolrwydd wrth weithio mewn partneriaeth? (FfAC 3.3)

Rydym i gyd yn rhannu'r nod o weithio mewn partneriaeth er mwyn gwella darpariaeth, safonau a lles. I fod yn effeithiol wrth weithio gydag eraill, mae angen i ni:

- fod yn berthnasol i'w cymuned leol ac i fywydau dysgwyr y tu allan i'r coleg a thu hwnt i oriau coleg;
- ymgysylltu â'r gymuned ehangach, gan gynnwys busnesau, asiantaethau statudol eraill a'r sector gwirfoddol; a
- gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig gydag asiantaethau eraill i wella safonau a lles dysgwyr unigol.

Dylai gweithio mewn partneriaeth arwain at ansawdd a safonau gwell. Mae angen i ni ystyried pa mor dda y mae ein coleg yn cydweithredu â phartneriaid i gyflwyno rhaglenni a dewisiadau cydlynus. I wneud hyn, mae angen i'r coleg gael strwythurau a phrosesau effeithiol ar waith sy'n cyfrannu'n dda at arferion gweithio ar y cyd. Dylem ystyried sut mae ein staff yn gweithio gyda phartneriaid i gynllunio, rheoli a sicrhau ansawdd darpariaeth, er enghraifft, drwy gydgyfrannu ein cyllid a'n hadnoddau.

Wrth ystyried y cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu gydol oes, sy'n cynnwys addysg 14-19 ac addysg oedolion yn y gymuned, mae angen i ni ystyried effeithiolrwydd ein partneriaeth gydag ysgolion, colegau eraill, darparwyr DOG a DYYG. Dylai'r partneriaethau hyn gynnig cyfle i ddilyn ystod o gyrsiau addysg alwedigaethol a chyffredinol addas.

Dylem ystyried effaith gweithio mewn partneriaeth ar wella deilliannau, yn enwedig cyflawniad, ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n gweithio oddi ar y safle yn ogystal â'r

dysgwyr sy'n mynychu ein coleg ar gyfer eu cyrsiau. Prawf da o effeithiolrwydd y coleg yn gweithio mewn partneriaeth yw pa mor dda y mae arweinwyr yn monitro ac yn arfarnu safonau a darpariaeth eu dysgwyr ar gyrsiau a rhaglenni cydweithredol gyda darparwyr eraill.

Pa mor strategol ydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i wella safonau a lles dysgwyr? (FfAC 3.3.1)

Mae angen i ni ystyried pa mor strategol y mae ein coleg yn gweithio gyda'i bartneriaid i wella safonau a lles dysgwyr. Mae partneriaid yn cynnwys:

- rhieni/gofalwyr;
- cyflogwyr lleol a rhanbarthol;
- ysgolion a darparwyr ôl-16 eraill yn y rhwydwaith ardal;
- darparwyr dysgu yn y gwaith;
- gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned;
- AdAS;
- cynghorau sgiliau sector;
- ystod o asiantaethau amlddisgyblaethol, sefydliadau arbenigol a gwirfoddol; a
- sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

Dylai ein coleg fod yn glir ynglŷn â'i rôl a'i gyfrifoldebau o fewn unrhyw bartneriaethau ffurfiol.

Bydd partneriaethau yn dibynnu ar gyswllt da, ymddiriedaeth a chyfathrebu clir rhwng partneriaid.

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â phartneriaethau strategol

- A ydyn ni'n ni'n chwarae rhan allweddol mewn partneriaethau perthnasol ac effeithiol sydd o fudd i'n dysgwyr?
- A ydyn ni'n gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig gydag asiantaethau eraill i wella safonau a lles dysgwyr unigol?
- A ydyn ni'n glir ynglŷn â'n rôl a'n cyfrifoldebau o fewn ein partneriaethau?
- A ydyn ni'n defnyddio partneriaethau strategol i'n helpu i adeiladu ein cynhwysedd ar gyfer gwelliant parhaus?
- A ydyn ni'n sicrhau bod cyswllt da, ymddiriedaeth a chyfathrebu clir rhwng ein coleg a'n partneriaid?
- A ydyn ni'n ymgysylltu â'r gymuned ehangach, gan gynnwys cyflogwyr, asiantaethau statudol ac arbenigol eraill, a'r sector gwirfoddol, er budd ein dysgwyr?

Pa mor dda ydyn ni'n cydweithredu â phartneriaid i gyflwyno rhaglenni a dewisiadau cydlynus? (FfAC 3.3.2)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â chynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd

- A oes gennym strwythurau a phrosesau effeithiol sy'n cyfrannu'n dda at arferion cydweithio?
- Pa mor dda ydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i gynllunio, rheoli a sicrhau ansawdd darpariaeth?

Cwestiynau y dylem eu gofyn i ni'n hunain ynglŷn â'n gwaith gyda'n partneriaid mewn addysg a hyfforddiant

- A ydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod ein dysgwyr yn gallu dilyn ystod o gyrsiau addysg alwedigaethol a chyffredinol addas?
- A ydyn ni'n sicrhau bod ein dysgwyr yn gallu dilyn y cyrsiau mewn modd effeithlon a diogel?
- A ydyn ni'n sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn gwella deilliannau, yn enwedig cyflawniad?
- A ydyn ni'n monitro ac yn arfarnu safonau a darpariaeth cyrsiau a rhaglenni cydweithredol gyda darparwyr eraill?
- A ydyn ni'n gwybod beth sy'n mynd ymlaen a pha gamau sydd wedi'u cymryd pan ganfuwyd gwendidau?
- A ydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ni?

Sut ydyn ni'n arfarnu rheoli adnoddau? (FfAC 3.4)

Mae arweinyddiaeth yn gofyn bod adnoddau, gan gynnwys staff, amser a chyllid, yn cael eu defnyddio'n effeithiol i wella darpariaeth, safonau a lles. Wrth arfarnu rheoli adnoddau, dylem edrych ar ba mor dda yr ydym yn cynllunio ac yn gweithredu strategaethau effeithiol i sicrhau ein bod yn cyflawni gwerth am arian yn y modd y caiff adnoddau eu rheoli.

Un gorchwyl pwysig yw barnu pa mor effeithlon ac effeithiol yr ydym yn cynllunio ac yn cynnal strategaethau i reoli ein staff a'r adnoddau sydd ar gael. Dylem fod yn ymwybodol y gall fod rhai nodweddion o'n rheoli sy'n cyfrannu at reoli adnoddau yn effeithlon neu'n amharu arno.

Pan edrychwn ar faterion ariannol, nid ar fanylion ein cyllidebau ariannol yn unig y dylem edrych. Yn lle hynny, dylai'r ffocws fod ar y graddau y mae penderfyniadau gwariant ein coleg a chynllunio ariannol bras wedi'u seilio ar flaenoriaethau ar gyfer gwario ar welliant dros gyfnod.
Gorchwyl pwysig arall ar gyfer arfarnu gwerth am arian yw p'un a yw'r coleg yn effeithiol o ran cyflawni deilliannau da neu ragorol ar gyfer dysgwyr. Gall fod yn ddefnyddiol ceisio gwneud asesiad cyffredinol o werth am arian. Mae hyn yn golygu barnu a yw ein coleg yn cynnig gwerth rhagorol, da, digonol neu anfoddhaol am arian ar gyfer y dysgwr o ran y defnydd a wneir o'r incwm sydd ar gael. Dylem farnu hefyd pa mor effeithiol y mae'r coleg yn cynhyrchu incwm o ffynonellau heblaw am Lywodraeth Cymru.

Pa mor dda ydyn ni'n rheoli ein staff a'n hadnoddau? (FfAC 3.4.1)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â rheoli staff ac adnoddau

- A yw ein staff yn meddu ar wybodaeth a medrau priodol i gyflwyno'r cwricwlwm?
- A ydyn ni'n defnyddio ein staff i wneud y defnydd gorau o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad?
- A ydyn ni'n nodi ac yn diwallu anghenion datblygu pob un o'n staff trwy systemau gwerthuso a rheoli perfformiad?
- A ydyn ni'n rheoli ac yn defnyddio ein staff technegol a staff cymorth eraill?
- A ydyn ni'n darparu'r safonau gorau posibl o adeiladau?
- A oes gan ddysgwyr ddigon o adnoddau dysgu priodol?

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â materion ariannol

- A yw ein penderfyniadau gwariant a'n cynllunio ariannol bras wedi'u seilio ar flaenoriaethau ar gyfer gwario ar welliant dros gyfnod?
- A ydyn ni'n gwybod costau rhaglenni a gweithgareddau presennol, yn parhau i'w hadolygu ac yn gofyn a ydynt yn gost effeithiol, er enghraifft, mewn perthynas â meintiau grŵp bach?
- A ydyn ni'n nodi blaenoriaethau a meysydd i'w datblygu, ac yn dyrannu adnoddau yn briodol ac yn unol â meini prawf clir i adlewyrchu ein hamcanion cytûn?
- A oes gennym drefniadau cyllidebu systematig a chywir?

A ydyn ni'n darparu gwerth am arian? (FfAC 3.4.2)

Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â gwerth am arian

- A yw ein darpariaeth yn effeithiol o ran sicrhau deilliannau priodol ar gyfer ein dysgwyr?
- A ydyn ni'n sicrhau cydbwysedd rhwng effeithiolrwydd ein darpariaeth yn erbyn costau, gan gynnwys costau staffio?
- A ydyn ni'n gwneud defnydd da o'r cyllid a dderbyniwn?
- Pa mor effeithiol ydyn ni o ran cynhyrchu incwm o ffynonellau heblaw am Lywodraeth Cymru?
- A ydyn ni'n gwneud defnydd effeithiol o incwm a gynhyrchwyd o ffynonellau eraill?
- A ydyn ni'n rheoli ein hadnoddau yn gynaliadwy?

6 Hunanasesu ac arolygu

Dylai colegau ddefnyddio gwybodaeth o hunanasesu i fwydo i'w cynlluniau strategol ac i gyfrannu at ddiweddariad hunanasesu blynyddol. Mae diweddariad hunanasesu blynyddol yn cynnig cyfle i nodi cryfderau a dathlu a rhannu arfer dda. Dylai'r diweddariad hunanasesu blynyddol hwn nodi meysydd ar gyfer gwella'r coleg, a gellir blaenoriaethu hyn wrth gynllunio gwelliant. Mae'r Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd yn cydnabod pwysigrwydd diweddariadau hunanasesu blynyddol colegau yn seiliedig ar y FfAC.

Mae arolygiadau yn darparu asesiad allanol pwysig o waith colegau dros gylch o chwe blynedd. Gall arolygu helpu colegau i ganolbwyntio ar yr hyn y mae angen ei wneud a sut i ysgogi newid sylweddol yn ansawdd a chysondeb y dysgu.

Y man cychwyn ar gyfer arolygu yw asesiad y coleg o'i berfformiad ei hun, gan ategu hynny â gwybodaeth berthnasol am berfformiad. Ni fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar waith yn fanwl yn ystod arolygiad craidd. Bydd adroddiad hunanasesu'r coleg yn pennu'r modd y bydd arolygwyr yn cymryd samplau o dystiolaeth i brofi asesiad y coleg o'i waith.

Dylai adroddiad hunanasesu da:

- fod yn ddadansoddol, yn arfarnol a chryno;
- nodi meysydd i'w gwella yn ogystal â chryfderau;
- nodi arfer sy'n arwain y sector, pan fydd yn briodol;
- rhoi barnau clir ar bob dangosydd ansawdd yn y FfAC;
- sicrhau bod barnau'n deillio o dystiolaeth ac yn cynnwys croesgyfeiriadau ati;
- cynnig sylwadau ar ddata ystadegol am ddeilliannau dros y blynyddoedd diwethaf;
- cyfeirio at asesiadau neu adolygiadau diweddar o ddarpariaeth; a chysylltu'n glir â'r cynllun datblygu ansawdd a thargedau.

7 Pecynnau offer i gynorthwyo hunanasesu

Pecynnau offer hunanasesu Estyn

Gallai rhai o gyhoeddiadau Estyn fod yn ddefnyddiol i golegau wrth iddynt gynnal hunanasesu. Nid yw'r rhestr ganlynol yn ddihysbydd::

- Gwrando ar Ddysgwyr;
- Cydraddoldeb Hil a Saesneg fel Iaith Ychwanegol; a
- Addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang;
- Cymhwyster Bagloriaeth Cymru;
- Byw'n Iach;
- Llwybrau Dysgu 14-19;
- Beth sy'n gwneud darparwr hyfforddi da?;

- Arweinyddiaeth a rheolaeth strategol mewn addysg bellach, y sector dysgu yn y gwaith a'r sector dysgu oedolion yn y gymuned;
- Strategaethau effeithiol i ddysgwyr gyflawni medrau allweddol o fewn fframweithiau ansawdd; ac
- Effeithiolrwydd rheoli ac adolygu perfformiad mewn sefydliadau addysg bellach.

Pecynnau offer hunanasesu eraill

Safonau Ansawdd Sgiliau Sylfaenol
Mae'r Safonau Ansawdd Sgiliau Sylfaenol pob oed yn cydnabod darparwyr sy'n gwneud cynnydd amlwg o ran gwella'u darpariaeth medrau sylfaenol.
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/allsectorpolicies/basicskillscymru/schoolsandproviders/qualitystandard/applicationstandard/?skip=1&lang=cy&ts=1

Y Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ar gyfer dysgu ôl-16
Mae AdAS wedi sefydlu Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ar gyfer dysgu ôl-16. Nod y FfAE yw cefnogi prosesau hunanasesu darparwyr ôl-16 a sicrhau eu bod yn cyflwyno rhaglenni addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion dysgwyr.
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/qualityframeworkpost16/?skip=1&lang=cy

Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDFE) – Strategaeth ar gyfer Gweithredu
http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/081204strategyactionupdatecy.pdf

CBC: Cymru, Ewrop a'r Byd
Pecyn offer hunanasesu gyda holiadur.
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/guidanceresources/waleseuropeworld/?skip=1&lang=cy

Ydyn ni'n cwrdd â'ch safonau? Pecyn Hunan-asesu Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc
Mae'r pecyn hwn yn datblygu ac yn hyrwyddo set o Safonau ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r ddogfen wedi'i hardystio gan holl aelodau Is-Bwyllgor Cabinet Llywodraeth Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.
http://www.savethechildren.org.uk/assets/images/standards-pack.pdf

Pecyn hunanasesu safonau cyfranogiad
Pecyn cymorth yw hwn i helpu darparwyr i fyfyrio ar eu harfer eu hunain mewn perthynas â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. Mae'n rhoi syniadau am sut y gall darparwyr fodloni'r Safonau Cyfranogiad a pha dystiolaeth y gallent ei defnyddio i ddangos eu gwaith. Mae pecyn hunanasesu i ddarparwyr ei gwblhau ar y cyd â phlant a phobl ifanc.
http://www.participationworkerswales.org.uk/userfiles/file/Final%20Report%20National%20Standards%20Welsh%20Version%20Final1%20(2).pdf

Fframwaith hunanadolygu Becta ar gyfer TG
Mae'r fframwaith hunanadolygu hwn yn cynnig llwybrau ar gyfer gwella'r ffordd y caiff TGCh ei defnyddio. Mae'r fframwaith yn edrych ar a yw buddsoddiad mewn TGCh yn

addas i'r diben. Gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer nodi cryfderau a gwendidau. Mae'r fframwaith yn helpu i bennu nodau realistig ar gyfer gwella. Pan gwblheir y fframwaith hunanadolygu, mae modd gwneud cais am y marc safon TGCh.
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/improvingschools/ictframework/?lang=cy

Raising standards – a contextual guide to support success in literacy, numeracy and ESOL provision
Bwriad y Canllawiau Codi Safonau hyn, a gynhyrchwyd gan yr Uned Strategaeth Sgiliau Bywyd, yw helpu ymarferwyr, arweinwyr a rheolwyr i wella ansawdd addysgu a rheoli darpariaeth llythrennedd, rhifedd ac iaith trwy ddefnyddio pum cwestiwn y Fframwaith Arolygu Cyffredin (Lloegr) yn eu cyd-destun penodol.
http://www.excellencegateway.org.uk/page.aspx?o=138202

Measuring Effectiveness: a self-assessment toolkit for the national network of councils for voluntary service
Diben y pecyn offer hwn yw cynorthwyo'r Cynghorau Gwasanaeth Gwirfoddol (CGG) i fonitro ac arfarnu eu gwaith. Mae'r pecyn offer yn darparu canllaw cam wrth gam i hunanasesu, ac mae'n dangos y broses hon gan ddefnyddio CGG damcaniaethol. Mae'r pecyn offer yn darparu set o offer monitro ac asesu. Mae rhai ohonynt yn benodol iawn ac yn cynnwys cwestiynau y gallwch eu haddasu a'u defnyddio mewn holiaduron a chyfweliadau.
http://www.navca.org.uk/publications/meseffect/

An enterprising approach to self-assessment
Pecyn hunanasesu rhyngweithiol yw hwn. Mae'n cynnwys cynllunio gweithredu ac mae'n edrych ar yr effaith ar blant a phobl ifanc. Mae hefyd yn edrych ar ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'n darparu fformat ar gyfer cofnodi cryfderau a chyflawniadau allweddol, nodi agweddau ar gyfer gwella a chynllunio camau nesaf.
http://www.ltscotland.org.uk/enterpriseineducation/selfassessment /index.asp

Good practice in college self-assessment and college self-assessment (LSN, 2006)
Canllaw ymarferol yw hwn ar gyfer arweinwyr a rheolwyr. Mae'n esbonio beth yw hunanasesu a pham y mae'n ofynnol i sefydliad ymgymryd ag ef. Dilynir hyn gan nodi'r ffactorau llwyddo hanfodol mewn hunanasesu. Mae adrannau eraill yn rhoi cyngor ac arweiniad ar lunio adroddiad hunanasesu.
http://www.eauc.org.uk/sorted/good_practice_in_school_self-evaluation_and_col

Self-assessment – updated guidance for the further education system
Mae'r arweiniad hwn ar gyfer darparwyr addysg bellach yn Lloegr. Fe'i cynhyrchwyd i gynorthwyo pob darparwr yn eu gwaith yn ymwneud â hunanasesu.
http://readingroom.lsc.gov.uk/lsc/National/nat-selfassessmentguidancefe-oct08.pdf

Preparing learners for learning in Scotland's colleges. A toolkit for self-assessment and quality enhancement
Gellir defnyddio'r pecyn offer hwn i edrych ar ddarpariaeth ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr. Er enghraifft, gellid ei ddefnyddio i edrych ar ddysgwyr rhan-amser, dysgwyr amser llawn, dysgwyr sy'n oedolion, y rhai sy'n ddi-waith am yr hirdymor ac ati. Enghraifft benodol fyddai defnyddio'r pecyn offer ar y cyd â'r gymuned i gynllunio

a monitro trosglwyddo o ddysgu anffurfiol i raglenni coleg. Trefnir hunanasesu o dan 3 phrif bennawd: rheolaeth, arweinyddiaeth a threfniadaeth mewn paratoi dysgwyr ar gyfer dysgu; trefniadau ar gyfer paratoi dysgwyr cyn cychwyn ar raglenni coleg; a threfniadau ar gyfer paratoi dysgwyr pan fyddant yn cychwyn ar raglenni coleg.
http://www.hmie.gov.uk/documents/publication/plfl.pdf

Inquiry into lifelong learning – summary document
Yr adroddiad cryno gan ymchwiliad annibynnol a sefydlwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion (NIACE) yn 2007. Mae comisiynwyr wedi'u nodi o ystod eang o dystiolaeth i ddod i gonsensws bras ar gyfer dysgu gydol oes yn y dyfodol yn y DU.
http://www.niace.org.uk/lifelonglearninginquiry/docs/IFLL-summary-english.pdf

Recording and recognition of progress and achievement (RARPA) in non-accredited learning
Pecyn offer gwerth ychwanegol yw hwn i gynorthwyo arweinwyr a rheolwyr i gofnodi a chydnabod cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr, rheolwyr ac athrawon mewn rhaglenni heb eu hachredu.
http://www.niacedc.org.uk/cy/rarpa-toolkit